

Mae'r Cadeirydd newydd fy nghyflwyno fel un o Dredegar, ac mae hynny'n iawn. Ond y gwir yw taw yn Sirhywi y cefais fy ngeni a'm magu, sydd yn rhan o Dredegar erbyn hyn, ond sy'n ardal a ddatblygodd yn sgil dechrau cloddio am fwyn haearn yn chwarter olaf y ddeunawfed ganrif. Mae datblygu yn air rhy fodern i ddisgrifio'r ychydig resi o dai a godwyd fan hyn a fan draw wrth i'r gwaith ehangu. Roedd y tai a godwyd i'r gweithwyr cyntaf wrth geg y gwaith: pedair rhes ohonyn nhw, a'r enw arnynt, yn naturiol, oedd **Petar Esdar**: erbyn fy amser i **Four Rows**. Oherwydd eu lleoliad doedd dim posib cadw'r tai yma'n lân, na rhai tebyg iddynt a godwyd ychydig ar eu hôl. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n siwr, cefais siars gan fy mam i bido gweud wrth neb fy mod i'n byw yn Sirhywi. Gwarth fyddai i deulu fel y ni gael ei ystyried yn aflan.

Doedd Sirhywi ddim yn bentre; codwyd rhesi o dai yn ôl yr angen, ac yn y manau agosaf at y gwaith. Codwyd ein rhesi ni yn 1910 ar waelod rhiw fawr Sirhywi wrth yr afod a'r rheilffordd. Roedd rhain yn dai parchus, a'r tadau yn weithwyr swyddfa a siop, a'r ty bach ar waelod yr ardd. Y manau pwysig yn fy nghyfnod i oedd y dafarn fawr, Sirhywi Inn, yr ysgol a'r siop tsips.

Felly roedd yna ddwy Sirhywi, yr hen a'r cymharol newydd, a'r ddwy yn cyfarfod yn yr ysgol. Roedd criw **Petar Esdar** yn dipyn o **strabs**. Doedd dim llawer wedi newid yn eu cartrefi nhw ers can mlynedd a mwy. O ganlyniad, roedd rhai o'r plant yn dod i'r ysgol yn ddu bitsh. Roedd un bachgen yn fachgen mawr tal, cymeriad o grwt. Dodd e, na'i ddillad, ddim yn gweld dwr a sebon yn aml. Roedd un o'r merched wedyn a gwyneb bach crwn pert, ac roedd hitha â'i gwallt yn ffluwch ac yn sefyll ar ei phen. Roedd tuedd yndi hi i lefain a'r dagra yn gwneud dwy rigol wen lawr ei bochau.

Roedd rhyw griw bach arall â'u mamau yn ymwybodol o'r enw gwael oedd gan deuluoedd Petar Estar, fyddan nhw yn cael sgwrdd iawn cyn dod i'r ysgol, ac ôl y wlanan wedi gwthio eu gwallt i sefyll oddi ar eu talcen, ac ogle sebon carbolic arnynt nhw.

Roedd y plant hyn yn gneud mwy o swm na ni, ac rôn ni'n teimlo eu bod nhw'n cael mwy o sbort na ni. Ron nhw hefyd yn **siarad** yn wahanol i ni, ac rôn ni am eu hefelychu. **Ow be?** oedd eu cyfarchiad nhw bob bore a ninna'n ateb **Ylo**. Doedd ein mamau ddim yn hoff ohonon ni'n gofyn **eniw comin**, ond roedd yn sbort i ni. Roedd yr hen bobl yn cyfarch ag **Ow bi Iw?** ac yn gofyn **Be iw comin?**

Rôn ni'n gwahaniaethu rhwng ynganiad *hoarse* (yn gryg) a horse (ceffyl). Roedd y ddau yr un sain iddyn nhw: y bechgyn yma oedd yn treulio eu gyda'r nosau **up Skipper**. **Be iw comin up Skipper tonight?** Rôn i'n gwybod fod pewn neu lyn bach ar ben y mynydd, rhyngddon ni a **Ben-ca (Ben-ca** yw'r dref a ail-fedyddiwyd gan yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1958 yn Glyn Ebwy) enw'r pewn yma oedd **Skipper Wen**. Ymhen blynnydoedd wedyn, gwelais yr enw yn ysgrifenedig sef **Ysgubor Wen** a sylweddoli ein bod ni blant i gyd, heb yn wybod i ni, yn cadw'r calediad.

Rôn i'n eithaf eiddgeddus o'r criw yma: rôn nhw'n cael bywyd mwy difyrach na ni. Yn yr haf, roedden nhw a'u teuluoedd yn mynd **up the ops**. Dôn i ddim yn gwobod ble rodd **up the ops** na beth ôn nhw'n neud yno. Ond rôn nw'n colli wythnosau o ysgol. Ges wbod wedyn eu bod yn mynd i swydd Henffordd i dynnu hopys. Digwyddais weld fan gelfi yn mynd â'u heiddo ryw fore Sadwrn: roedd yno fatresi, cadeiriau a bord. Rôn i'n teimlo fy mod yn cael colled fawr wrth beidio mynd **up the ops**.

Dyna ddarlun o Sirhywi ond ble mae'r Sirhywi ma? Pan ddes i Gaerdydd yn niwedd fy arddgau, roedd fy ffrindiau yn aml yn dweud, 'Wyt ti'n rêl cwm!' Roedden nhw yn fy ngweld i o safbwynt ieuenticid Caerdydd ond roedd yr ymadrodd yn hollol ddiystyr i mi. Falle mod i'n fwy llythrennol yn y dyddiau hynny ond imi, doeddwn i ddim yn byw mewn cwm a doedd rhannu'r cymoedd i ffurfio unedau gwleidyddol ddim wedi digwydd. Wrth edrych yn ôl, petaen nhw wedi dweud 'Wyt ti'n rêl un o'r gwitha!', mi allwn fod wedi cytuno â nhw.

Ond roedd dweud ein bod ni yn byw yn y cymoedd yn ddiystyr i mi a rhagfarn fy nhad lawer mwy ystyrlon. Wrth drafod barn pobl Caerdydd am bobl blaenau'r cymoedd, roedd e'n honni, *'They think we live up the 'ills up 'ere.'* Erbyn hyn, rwy'n gwybod fod sail i'w ragfarn. Mae gen i ddwy ffrind a ddaeth i Gaerdydd yn athrawesau ifainc yn y pedwar degau. Daethant yn 1946 i letya gyda gyrrwr injan a'i wraig yn Cathays. Roedd e yn Dori mawr oedd yn siarad iaith Kairdiff. Roedd ei wraig yn cadw ty ac yn dewis ei dyddiau i fynd i'r dref i siopa yn ofalus. *'I don't go to town on a Thursday: they come down from the hills*

on *Thursday*' Ac roedd hynny'n swinio'n ddirmygus iawn i fi. Ond yn ddiweddar, dywedodd rhywun wrthyf fod Trefor Beasley wedi dweud wrth ei thad ei fod e wedi gorfod mynd o Llangennech Forgannwg *i'r mynydda i gael gwaith*. Adrodd ffaith oedd e, nid dweud yn ddirmygus o gwbl. Wrth i hwnna gael ei drosi i'r Saesneg, pryd hynny daeth y newid ystyr, gyda threigl y blynyddoedd.

Mynd i'r mynydda wnaeth fy hen dadcu ar ochr fy mam, Alexander Griffiths, *Ligsandar* i'w deulu. Cerddodd y gweundiroedd o'r Rasa i Sirhywi i chwilio am waith. Roedd hwn o'r un anian a'r un dafodiaith, yn ôl y sôn, â'r bobl leol. Petai heb gael gwaith, fyddai wedi dal i fynd yn ei flaen nes cyrraedd Dwlsh (Dowlais) ac yna Myrthyr. Teithio ar draws blaenau'r cymoedd a wnâi'r bobl. Dim ond defaid oedd yn pori'r cymoedd. O dan gramen y cilcin yma o ddaear ar draws y blaenau roedd yr haearn, y glo, a'r calch a roes fywoliaeth i filoedd.

Yn niwedd fy ardegau hefyd sylweddolais fod hanes gwiw i'r Gymraeg yn Sirhywi. Estynnodd fy mamgu lyfr carpiog, di-glaur o'i chwstsh imi ei weld, copi o *Atgofion am Sirhywi a'r Cylch* gan Myfyr Wyn oedd yn enedigol o'r ardal. Yn 1898 yn ei lith i *Darian y Gweithiwr*- Roedd y gweithwyr â meddwl y byd o'r *Darian* oedd yn bapur newydd radicalaidd oedd yn sgrifennu o blaid y gweithiwr cyffredin. Mae Myfyr Wyn felly yn dychmygu ei hun yn feirniad eisteddfodol pwysfawr. Mae'n atgoffa ei ddarllenwyr am **eisteddfodau'r gorffennol**: Rwy am ei ddyfynnu am ei fod yn dal yn berthnasol heddi.

I'ch chi'n cofio pan o'ch chi a fi yn grots fel odd y barnwrs pryd hynny arfadd gweid, odd amball un yn cwnu lan ar y platfform a'i fys bawd y nhwll llewish ei wasgod, a bwndal o baprau yn y llaw arall, ag ar ôl peswch ddwywaith neu dair, a dishgwll rownd i gal gweld os odd pawb yn dala notis, wetin bysa'n dechra ar i fusnes run shwt a hyn ###

Derbyniwyd pedwar pishin ar y testyn, Pryddest i'r gath, Ai ymlaen i drafod y cystadleuydd HUWCYN ### Ma pishin lled dda ar y cyfan gen hwn, ond fod a'n colli wrth sbelian, a ddim yn dyall dim am yr h.

Roedd hon yn hen drawiad. Yn 1856 roedd David Edwards, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn ysgrifennu: Mae yr iaith Gymraeg, fel yr arferir hi yma, yn fwy cymysgedig a llygredig nag mewn un rhan o'r Dywysogaeth. Mae y brodorion yn camseinio y llafariad i,u y, mewn lliaws o eiriau. Rhoddant y gytsain h- i mewn lle nad oes angen amdani, a thrachefn cymerant hi allan yn ofalus o liaws o eiriau y dylai fod ynddynt. Caiff heddwch yr enaid fyned ganddynt yn 'eddwch yr henaid a hen eidion yn en eidion; hail yn ail ac felly yn y blaen.

Mae Thomas Jones wedyn, Y Thomas Jones a sefydlodd y Welsh Outlook, a ddaeth yn DDIRPRWY YSGRIFENNYDD Y CABINET AC YN SEFYDLYDD COLEG HARLECH, a aned yn Rhymni, y dref oedd nesag at Tredgar, yn 1870, yn sôn am ei deulu yn *Rhymni Memories* 'Deallaf ein bod wedi siarad Cymraeg gartref nes imi fod yn chwech oed, ond wrth i'r plant fynd i'r ysgol, troes y teulu i siarad Saesneg gan gadw'r Gymraeg at ddibenion crefydd, Mae'n canmol yr addysg a gafodd yn Rhymni ond yr oedd ganddo un gwyn fawr yn erbyn ei ysgolfeistri. Hynny oedd na chafodd ei ddysgu i ddefnyddio h yn gywir. Roedd gwybod pryd i ddefnyddio h- ar ddechrau gair yn faen tramgwydd iddo am flynyddoedd. Ac i genedlaethau ar ei ôl e.

Clywais gyn-löwr yn siarad ar raglen newyddion ar achlysur agor Pwll Mawr fel atyniad twristaidd yn 1983: dyma oedd ganddo i'w ddweud.

I started work at the hage of fourteen, working with my huncle. My helder brother was also underground.

Yn ein hysgol ni, roedd pawb, o'r prifathro ei hun i'r plentyn llafiaf yn gollwng yr h- ac yn gosod rhyw j fach yn ei lle **I can('t) jear you**, roedd hynny'n hollol dderbyniol, ond cast arall a godson ni gan blant **Petar Estar** oedd **Ave you Jeard about jeard** doedd hynny ddim yn dderbyniol gartre. na **drowned!**

Ond yr oedd yr h- yn cael ei ddefnyddio er mwyn pwyslais. Gweiddir Eisht! ar blant neu gwn a chathod oedd yn **catw rali**. Os nad oedd hynny'n cael yr effaith angenrheidiol, gweiddir **Heisht!** yn uwch.

Roedd yr hen goliars i gyd yn catw mochyn ac roedd gwybod pryd i ladd a phryd i halltu yn bwysig:

cymeriff y mochyn ddim o'r 'alan pan bo'r llud yn llawn. Calan o alan a brynwyd. Yr oedd halen yn sbardun i ddyn ac anifail. Roedd pob plentyn yn gyfarwydd â **Dota'i alan ar dy gwt di** os oedd yn cambihafio. Anogaeth i ddynion os nad oedd y gwaith yn cael ei wneud fel y dylai odd **'Alan ar ei gwar i nawr bois**. Anogaeth arall i weithiwr oedd **Torch dy lewish, canon boi!** (Roedd yn nhad yn byw yn ymyl rhiw serth pan oedd yn blentyn a byddai ceffyl a chart yn dod â llyisia neu olew lan i'r strydoedd. Ond byddai'r hen geffyl yn nogio ar waelod y rhiw yn aml. Doedd dim amdani wedyn ond rhedeg i un o'r tai cyfagos a gofyn am golsyn o'r tân. Dim ond rhoi'r colsyn poeth o dan ei gwt a byddai'r ceffyl yn mynd nerth ei garnau lan y rhiw.)

Mae ansicrwydd hefyd ynglyn ag **n** ac **r** ar **ddechrau gair**. Rwy eisoes wedi sôn am **Petar Estar**, ac **Estar Dop** oedd y rhes uchaf o dai. **Esderi** yw'r lluosog. Dyma ddyn yn sôn am gynnwys ei ardd: **Riwbob, dipyn o barsli, resdar o letis, tatws, winwns a dwy rew o gabij**. Roedd **ripyn** hefyd yn cael ei ddefnyddio yn yr ardd. **Ribinwn i'r pishyn 'yn**. Caiff ei ddefnyddio'n amlach fel pellter: **Ma'n ripyn o ffordd o man 'yn**.

Am yr **n-**: o dan ddaear **lamp gola ôth** oedd gan y colliars: gartre golau nwy oedd gan bawb, yn aml fyddai hwnnw yn **gola ôth** hefyd. Roedd tymheredd llaeth er enghraifft yn gallu bod yn bwysig wrth wneud caws neu wrth wneud teisen **naws y gwæd**, oedd y dymheredd iawn ond byddai rhai yn dweud **awsd y gwæd**. (Rwy'n teimlo nad oedd y gwragedd yn darllen llawer heblaw y lyfr emyna a'r Beibl. Roedd y dynion ar y llaw arall yn cael blas mawr a gwybodaeth o ddarllen Tarian y Gweithiwr.) neu ma **naws nêt ta'r tæ n ma**

Yna fel sydd yn digwydd mewn tafodieithoedd eraill, mae **n-** yn cael ei throsglwyddo i fod yn gytsain gynta y gair dilynol. **Odd i ddim nito dima goch. Mynd am nail**, am yn ail. A'r hen lw. **Wel Napad y farn!** Yr oedd cytseiniaid eraill, hefyd yn mynd yn rhan o'r gair dilynol os oedd hwnnw'n dechra a llafariad: **Beth rots?**

Roedd y cyfnwid cytseiniaid yn gyffredin. Digwydd **w** yn eithaf cyffredin yn lle **f**. **Walla daw a. Wait o glenig gethot ti? ma shwt en waldod dag a! 'Na beth odd y weriad amsar 'ny**. Gall ddigwydd hefyd yng nghanol gair **llyswam**.

Roedd ffurf negyddol siaradwyr hyn y dafodiaith yn ddi-ddorol iawn: Yn eu hiaith nhw, roedd **G-** yn negyddu'r ferf bod, **Gwi ddim llinci'r athrawiath na tabeth. Gyn nw ddim cretu yny eddi. Wel, gwn i yn y byd beth odd wna'n ddæ. Gwi ddim yn arfadd og e. Gyw i ddim nitha peth.**

Enghreifftiau o newid cyseiniaid **ar ddiwedd gair** yw **dd** yn lle **r** yn **arfadd: Dinon sydd yn arfadd u cwrdda** ac **dd** yn lle **r**. I dweud y gwir mae llawer anos gweud **arfadd** nag **arfar**

Mae geiriau bach eraill sy'n rhan o wead y dafodiaith, y diweddebau sy'n dod ar ddiwedd brawddeg. Roedd **shwt** yn air bach defnyddiol. **Fodd bynnag** yw ei ystyr ar ddiwedd brawddeg. Mae'n digwydd mewn cymhariaeth: os oes dau yn siarad ac un ohonynt yn camol person arall, gallai'r llall ateb **Yti sbwzo, ond alla'i ddim emeryd ato, shwt**. neu petai'r person dan sylw yn anystywallt gallai'r ateb fod **Yti, Biswn i fawr odro yn ei sgwara fa, shwt**. Mae **raid**, neu rhaid i chi, yn cael ei drin fel berf ar ddiwedd brawddeg sy'n gofyn cwestiwn. Byddai tafodieithoedd eraill yn defnyddio. Ond dos e? **Raid inni bido ymyrrath a gwaith y Bod Mawr, raid a?** Un arall oedd yn cynnwys rhybudd bygythiol. **I ddaw yn gallach, der di**. Alla'i glywed fy mam yn dweud nawr, **You'll get wiser, come you**.

Dyna frasmcan o seiniau'r dafodiaith

Pa fath o gymdeithas oedd hon?

Roedd hi'n gymdeithas gymysg; roedd hynny i'w ddisgwyl. Daeth pobl o rannau eraill o Gymru, o Loegr a'r Iwerddon. Ac eto, aros yn eu cynefin wnaeth y brodorion gan wyllo'r bobl ddwad a gwneud sylw o'u harferion. Gellid dweud ei bod yn gymdeithas fewnblyg a phobl yn gwylio'u gilydd. Doedd dim dylanwadau allanol arni, roedden nhw'n creu eu difyrwrch wrth ddilyn helyntion pobl eraill.

Mae'r haneswyr yn tynnu sylw at yr elyniaeth oedd rhwng y Cymry a'r Gwyddelod a ddaeth i dde Cymru yn dilyn cyfnodau o brinder yn yr Iwerddon. Cafwyd protestiadau croch yn eu herbyn yng Nghwm Rhymini yn 1825. Ym mhob ardal bron, aethon nhw i fyw yn y tai gwaethaf, y rhai a godwyd flynyddoedd ynghynt,

i'r gweithwyr haearn, ac o fyw yno, roedden nhw'n cael yr enw o fod yn frwnt ac yn ffraellyd. **Plant Mari** oedd yr enw ar y Gwyddelod. Os oedd rhyw ffræ neu ddadlau cwrs rhwng pobl yn eu maint neu blant y cerydd fyddai: **Chi'n wæth na Plant Mari** gan ychwanegu **A ma reina'n wæth na'r crafu**. Os oedd rhywun yn gwishgo dillad blêr, di-raen: **Ti'n dishgwl fel un o blant Mari yn y dillad na**. Roedd gwedd arall ar bersonolaeth y Gwyddelod yn cael ei gofio hefyd. Roedd plentyn ffel oedd a'r ddawn i goco yn **'en Badi wyt ti** yn cael ei ddweud yn ddi-faleis, ond fe gâi ei ddweud â thinc rhybuddiol yn y llais wrth ddweud **'en Badi yw e**: gwyliwch chi'ch cam. **Padias**. Ma cwilydd arno'i gyfadde fod fy mam yn un o'r rhain oedd yn cofio hyd y nawfed ach hefyd. Os oedd sôn, yn y papur lleol, am rywun wedi lladrata neu gamymddwyn fyddai fy mam yn rhoi terfyn ar bob trafod gyda **Wel Ol' Irish they are see**.

Nid cenedligrwydd yn unig oedd yn creu gwahaniaethau rhwng pobl. Roedd **rywun o off yw e** yn ddigon i esbonio ymddygiad rhyfedd. Bron nad oedd rhywun o dros y mynydd yn rhywun **o off**. Roedd pobl **Benc-ca** yn ystod fy mhlentyndod yn cael yr enw o fod yn bennau mawr.

Doedd dim gelyniaeth amlwg rhwng y Cymry a'r Saeson, doedd dim llawer yn dod i'rardal ond ymdeimlid â'r gwahaniaeth; **Rial en Saeson yn nw**. A'r farn oedd fod tipyn o **Shwd ych chi eddi** abythdi'r Saeson.

Yn 1833-34, trowyd cwrs yr afon Rhymni. Cyflogid dynion o bob cenedl a brith yno, ond bach iawn oedd y cyflog. Dywedir taw ar datws a sgatan oedd y mwyafrif yn byw. **Amsar tatws a sgatan** oedd hynny a pharheir i ddefnyddio'r ymadrodd mewn cyfnod o lymder. Sgadenyn sgatan. **Sgatan Aberporth/Dou fola mwn un corff. Sgatan allt** = bloater

Yn 1888, enillodd Mabon fuddugoliaeth fawr i'r glowyr pan sicrhaodd ddiwrnod o seibiant ar ddydd Llun cyntaf bob mish. Daeth yr arfer i ben yn 1898. Yng ngweithfeydd blaenau'r cymoedd parheid i daw Mabons Day, unwaith y flwyddyn ar y cyntaf o Fai. Cynhelid cyfarfodydd ac amball Eisteddfod gyda brwdfrydedd mawr. Byddai amball un yn gor-ddathlu ac yn methu cwnu i ddal y trê'n bore trannoeth. Pan gollai shift dydd Mawrth, dywedid ei fod yn cael **Mrs Mabon's Day**.

Ymadrodd sy'n deillio o'r gwaith glo yw **gwg mish pump**. Yr un arian a dalwyd i'r gweithiwr p'un ai oedd yn fis o 4 neu o 5 wythnos. Mae'n dal i gael ei weud. Well i fi fwstro neu fydd **gwg mish pump** ar dy dæd. **Marc i'r bedd** oedd marc glas y coliar.

Does dim angen dweud taw merched oedd yn rheoli'r aelwyd, ac am hynny nhw fyddai dan y lach amlaf. Nhw hefyd fyddai'n **direpu** ei gilydd wrth alw un yn **ddiprish** a'r nall yn **ddidorath**. I'n clustia ni roedd geiriau digon maleisus yn cael eu defnyddio. **En sgrafall** o fenyw: menyw frathog oedd honna; **sgrafall** a ddefnyddid i dynnu'r cols o'r tæ'n, en **sgiwran**, en **gwan** yw i. Merch anniban ei chartra, odd hi'n **sgaprwth**. Roedd **en sguthan** yn cadw ei hunan yn smart ond roedd ei thy yn drewi. Roedd 'en yn cael ei roi o flaen bob un o'r rhain i gryfhau'r ystyr.

Merched fyddai'n digwydd cwrdd â'i gilydd yn ddyddiol bron, ac yn cantan ne yn clecan: Yn naturiol byddai ryw **anas neu elynt** i gliwad bob dydd. Os oedd un ohonynt yn gwrando'n astud ond ddim yn cyfrannu at y sgwrs, y sylw fyddai **Wch fyd yw onna**. Doedd dim angen dweud mwy: rodd pawb yn gyfarwydd ag **wch fyd a fyt y sog i gyd**. Yn ei thro, roedd pob gwraig yn gallu ei gweud hi'n **fæn ac yn amal**. Roedd amball un â'r ddawn o ffrio sha'i chysgod neu o **ala rynt y gæth a'i chwtyn**. Byddai pawb yn falch o weld cefan amball un i, **Wyl wynt iddi chefan** i fydda'r ymadrodd wedyn. Dwn i ddim pwy fedyddiodd menyw fawr dew yn **gasag dwy ddram**.

Mae yna ryw air bach rwy wedi bod yn gweld trwy lygaid yr ugeinfed ganrif. Roedd sôn am fenyw oedd yn byw ar ei phen ei hunan mewn ty mawr **Treni amdeni, mae mor ddi-ddyn yn y ty mawr na**. Rwy wedi bod yn dehongli hwnna fel petai hi'n byw heb wr neu ddyn yn y ty. Ond **dinon** yw'r gair am bobl nid am wrywod, **Faint o ddinon odd yn y cwrdd eno?** ac felly mae bod yn **ddi-ddyn** yn golygu yn ddi-gwmni yn hytrach na heb gwmni gwrywaidd. Defnyddir **dyn** yn ddi-acen fel rhagenw amheronol. **Ma'n ddicon i gwpla dyn. ma dyn yn myn i ama pawb**.

PLANT

Mae magu plant yn gofyn am eirfa newydd. Roedd plentyn **yn llefan y glaw ne yn llefan y dwr**. Ond yr un at iws oedd **Llef di, (mwy a gyd llefi di) lleia gyd pishi di!**

Fyddai rhywun yn anwylo plentyn â **Dere ma yfryd**/ Come by jere lovely: **ren galon** shag yt ti: **Be ti moyn, calon? Shitan, shitan glæn Mangu**. Doedd **Dere ma cariad** byth yn cael ei ddefnyddio. Y gair anwes a fyddai'n cwmpasu pawb oedd **Bech**.

Os oedd rhywun yn colli amynedd a phlentyn llefllyd, y gorchymyn fyddai, **O bydd dawal yr en fapa shag yt ti**. Roedd **bapa** hefyd yn cael ei ddefnyddio am bobl yn eu maint. **En fapa o ddyn**, ne **en fapa dol** yw'r crwtyn na. **Y babi mwya shag yt ti** - wrth blentyn sydd wastad wrth gwt ei fam, neu sy'n galw ar ei fam i'w amddiffyn yn wyneb gwawd ei ffrindiau. Roedd rhywun di-ddal roedd **mor ddi-ddal â babi blwydd**. Os oedd gan rywun groen hyfryd, roedd ei groen **fel pen-ôl babi**. Plant bach annwyl yn denu sylw: **Shgw! ar y truan bæch! Be sy'n bod ar y Cristion bæch? Tindwyo a tolach plentyn ffel** oedd rhywun yn ei wneud.

Pan fyddai'r plentyn yn rhoi mwythau i'w famgu, **Swci mwci** oedd e, neu **swci mwc**. Roedd tuedd i gwtogi ambell air **Rho hwanna yn dy boc, Os nishad boc tach chi?** Enghraifft arall fyddai am ferch neu fenyw fach dwt; **un fach fit** odd 'i. Os oedd dipyn o gnawd arni **pwllffan a pwllffyn** fyddan nhw. Pan ai'r plentyn i'r gwely, bydda fe'n gweiddi **Nos da bob un** a byddai'r teulu'n ymateb â **Cysg yn dawal**.

Pan ddaeth hi'n ffasiwn i roi enwau Cymraeg ar blant unwaith eto, roedd rhai enwau bedydd nad oedd yn gymeradwy oherwydd eu cysylltiadau tafodieithol. Roedd Siân yn un am y cai ei ddefnyddio'n sarhaus. **Dere nawr, Shaen**. Roedd **Betsi** yn un arall am ei fod yn disgrifio dyn benywaidd ei ffordd. Gallai galw **Shincyn** ar fachgen ddisgrifio crwt direidus neu ddyn drwg. Roedd **Shoni bob ochor** yn **ritag gita'r cùn a'r canddoid**. Roedd dyn diog yn cael ei ddisgrifio fel **Shoni lonydd**. Roedd Sioni yn cael amser caled, **Ti'n dishgw! fel rw 'en Shoni yn y got na**.

Eto doedd pawb ddim yn gallu dygymod a'r ffasiwn newydd o enwau Saesneg chwaith **Enwa cwn a catha sy ar blant eddi**.

Mae enwau tylwythau'r ardal yn dal i ddangos crefft eu cyndeidiau. Teulu mawr yn y cylch yw'r *Sâz* am mai *saer* oedd yr hen dadcu. Un arall yw'r *Carts* am fod yr hen dadcu yn gwerthu nwyddau o'i geffyl a chart. Cafodd y *Calchwrs* eu henw am fod Tommy Jones yn gwerthu calch o dŵ i dŵ gan ganu ei gloch i ddweud ei fod wedi cyrraedd. Y *Mochwrs* oedd yn magu moch a tad *Blawdo* oedd yn arfer gwerthu blawd.

Pan ddeuai'n amser i ddisgyblu plentyn doedd dim pall ar y bygythion. Weithiau byddai **ialan fetw** ne **Jini Fetw** wrth ochr y lle tân yn ddigon. Ond byddai ambell blentyn **yn pleto'r du yn wyn a'r coch yn felyn** wrth bledio'n ddieuog. Rhoddid rhybudd cyn bygwth cosb: **Taw sôn** neu **Gæt dy fwtwr, Deio dy grwpyn di!** Wedyn deuai'r gair cryfach: **Cot ar dy ben ôl gei di, yr en gorgi shag yt ti: clatshan gei di pan ddaw dy dæd sha thre**. Y tæd odd y disgyblwr go iawn. **I gwna'i dy grôn di: I dorra'i'r ffon 'yn ar dy gefan di! Byddi di'n cael gwaith y crydd yn dy glai**. Ond ai defnyddio'r geiriau hyn i ddisgyblu'r bechgyn yn unig a wnai?

Roedd **bratu plentyn** neu **bratu arian** yn bechod mawr: **bratus** yw'r ansoddair. **Bratath** neu **bratach** yw'r ansoddair. **Sdim bratath mwn buwch**. Cymeriad lliwgar: **bachan butur, llaw butur**.

Roedd plentyn wystad yn holi; **Ble ti mynd?** Yr ateb slic odd **Cwmsgwt**. Ble ti wedi bod? **Elcawawes**. Cyn dyddiau'r teledu, roedd plentyn wystod yn gofyn, beth allai neud? ble ga'i fynd? roedd hi fel tôn gron a'r ymateb fyddai

Yr un en gân da'r gwew
neu petai yn ffilu eiste'n llonydd: **Wyt ti fel lluan mwn crachan**
neu os rhywun yn canu wrth y ford **Yr infyd a gân wrth ei fwyd**

Wrth i'r plant dyfu yn bobl ifanc, a dilyn eu trywydd eu hunain y cwynion fyddai **Ma plant 'eddi næn nw ddim pen pwyth ichi**, a'r llall oedd nad ydynt **Byth yn neud clust o beth ni'n gwued**.

Os oedd unrhywun yn ffilu aros yn ei chartref ei hun yn hir iawn neu am fynd i'r dre o hyd **Ma'r perc yn ei choes hi**. Mae'n un o eiriau nododd Iolo Morgannwg yn y Wenhwyseg ond dwy ddim yn hollol siwr o'i ystyr.

SAESNEG

Gofynnwyd imi lunio pwt ar iaith lafar Gwent pan ddaeth yr Eisteddfod i Gasnewydd yn 1988. Yr oedd yn dasg a achosodd gryn benbleth imi. Mi fasai wedi bod yn gamp i gywasgu'r Wenhwyseg i 10 munud. Felly, ar ôl hir bendroni, penderfynais sôn am y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg oedd yn dal yn ein Saesneg ni pan oeddwn yn blentyn. Er imi siarad yn bersonol a theuluol y pryd hynny, yr oedd ein tafodiaith yn gyffredin i holl hen deuluoedd Cymreigaidd os nad Cymraeg eu hiaith. Fy nadl i oedd fod llawer iawn o bobol, yr adeg honno beth bynnag, yn siarad iaith oedd yn gyfieithad o'r Gymraeg. Ond wedi'r traethu, fel yr oeddwn wedi ofni, yr oedd ambell un yn barnu fy mod wedi siarad am Saesneg Gwent ac nid am y Gymraeg.

Wnaeth hynny ddim torri nghrib i'n llwyr ac rwy am nodi ambell enghraifft heddi. **Bosh** yw'r unig air a ddefnyddir heddi am yr hyn a elwir yn **sinc mawr hirsgwar**. Mae'n air a ddefnyddid yn y gwaith haearn a mwyngloddio yn Lloegr.

Mae **nesh** yn air bach digon tebyg. Caiff ei ddefnyddio yn ardaloedd amaethyddol de Lloegr. Yno mae gwair pryd mae'm ifanc ac ir, neu gig tyner yn **nesh**.

Pobl yn unig sy'n **nesh** yn ein hardal ni, ac hefyd yn Sir Drefaldwyn. Mae'n cael ei ddefnyddio mewn ystyr fychanus ond gyda rhyw awgrym o dynnu coes. **Co is cold today** ei ateb fydda **you must be gettin nesh in your old age**.

Wi hefyd yn cyplysu **cewc** a **wewcs**. Ma'r rhain yn gweithio yn yr un ffordd yn y ddwy iaith. **cewc; golwg ar rywbeth: Sda fi ddim llawar o gewc ar wnna. I got no cewc on it at all. I got no look on it.** Am fenyw fedrus, dywedid bod **dipyn o gewc ar onna**
wewcs: Dyn a wyr beth yw union ystyr **wewcs**. **Am declyn: Amharodrwydd i weithio,** Its got the **wewcs** right enough. **Am berson: She got the wewcs on 'er.** rhyw fympwyon.

Rôn i'n meddwl y byddech yn hoffi clywed y dweud dwyieithog yma. **cwato** yw'r bôn: **Cwot lawr** fyddai'r gorchymyn i blentyn neu **Cwot that before your mother gets home**, neu am blentyn a'i guddfan **E got a cwot up the back**.

Roedd y geiriau hyn yn gyffredin iawn: fel odd **sbrachi: Wel thas a sbrachi ol thing that is: Ma'r tæna'n etrach yn lled sbrachi ed.** ddim fel y dylai fod, ddim at y safon disgwylidig ac fe wedodd rhywun wrtha'i llai na mis yn ôl eu bod nhw, yn Nhrefforest, yn defnyddio **sbrachi** yn eu Saesneg nhw.

Roedd geiriau eraill fel **taro** **You can depend on er when there's taro**
blas: Nid blâs ond blas I got no **blas** on it somehow
para byth: geiriau bach defnyddiol iawn am rywbeth sy'n hen ond yn dal i gael eu defnyddio: am sgitsha a dillad neu lestri.

Roedd y terfyniad berfol Saesneg -ing yn cael ei ychwanegu ar fôn Cymraeg: **wilmentin'** chwilio'n ddyfal ond yn aml yn ddi-bwrpas, ac yn shamblachu'r dreirau wrth wneud.
Côn -in: mae hyd yn oed sw'n hwn yn cryfhau'r ystyr. **O e's always Côn -in.**
Poenin: am brofocio neu dynnu coes
Clecin': cario clecs

Un a glywais gan frawd fy mam. Roedd y fenyw drws nesaf iddo yn achwyn poen yn ei bysedd yn ystod y tiwydd sgelar, *An I told e*, medda fy ewythr. *Its windro you got*. Dyna'r unig air oedd ganddo i ddisgrifio'r cyflwr yna, llosg eira.

Ynglyn â dywediadau yr oedd yn gyffredin **Brawd moci yw tacu: Yn sytan daw Dy Satwn: Ma dy licad**

yn fwy na dy fola ond yr oedd dywediad Saesneg oedd yn ergydio'n dda: **Better belly bust than good food waste. Gwell bola ollti na bwyd dæ i fratu.**

Ffordd o gysuro rhywun pan fo'n teimlo o dan y don: er ei fod yn helbulus ar y pryd, nid o dragwyddol bwys **Mae mwy o gollad o fodd cyn brechwast.** Rwy'n cofio mamgu a'i chwaer, rywdro, yn teimlo eu bod wedi bod yn rhy llawdrwm arna'i ond nad oeddwn fawr gwaeth wedi cael y cerydd, a'r naill yn dweud wrth y llall, 'Do you remember what my father used to say? **Ma pawb a'u bat ar Pympi ond Pympi'n byw er 'ynny.** Yr oedd fy hen dadcu yn enwog am ei ffraethineb ond dwn i ddim ai perthyn i'r teulu yn unig yr oedd neu i'r ardal. Claddais y peth ym mhellter y cof am flynyddoedd am fod arnaf ofn edrych yn ei lygad. Pan fagais ddigon o galon i wneud darganfyddais fod Pompey (a P fawr) yn Saesneg yn gallu golygu cwrwgl, tecetl a bachgen bach. Mae hefyd yn llysenw ar chwaraewyr pêl-droed tref Portsmouth.

Mae ansicrwydd yn fy meddwl am y ddau dywediad nesaf, y tro hwn mae'r ansicrwydd ynglyn â'r gynffon. Pan fyddwn yn gwisgo dillad lliwgar neu wahanol i arfer, yr ymateb fyddai **Mae'n well bod mas o'r byd na mas o'r ffasiwn, ys gwetws yr en fenyw wrth y mwnci.** Y llall yw pan fyddai rhywun yn trin a thrafod personoliaethau, y sylw fydda

Wel na fe, Llauer o siort sy yn y byd, ysgwetws yr hen fenyw wrth y mwnci.

A dyma un arall, sydd wrth gwrs ym mhob iaith ond gyda chynffon wahanol

Ma pob dicyn bæch yn elp, ys gwetws yr en raig amsar bishws i yn y môr.

Rwy'n dod at yr olaf un nawr ac at un sydd wedi bod gen i erioed. Gellir dweud bod hwn yn Saesneg hefyd. Yr oeddwn yn blentyn yn ystod y rhyfel pan oedd dillad ar gwponau. Yr oedd fy mam yn wraig ddarbodus, ac o ganlyniad, prynai ddillad oedd lawer rhy fawr i fi ar y pryd ond a fydda'n para. Pan fyddwn i'n protestio ei hateb sydyn oedd

Boy grow, coat (w)ont

Aeth yn jôc deuluol. Dim ond i'n ewyrth fy ngweld i mewn pilyn newydd, bydda'n dweud **Boy grow again Mes is it?** Meddylwch y wefr a gefais pan welais y geiriau hyn yn Llyfr Coch Hergest **Tyfid maban ni thyf ei gadachan.** Cafodd y geiriau hynny eu gosod ar glawr yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac yr oedd fy mam yn eu defnyddio, mewn cyfieithiad, yng nghanol yr ugeinfed ganrif.